# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 14 Medi 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Huw Williams ac Emrys Wynne

**Yr Aelod Cabinet Arweiniol –** roedd y Cynghorydd Mark Young yn bresennol ar gyfer Eitem 6 ar y Rhaglen

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Prif Reolwr, Gwasanaethau Gweithredol (CCN), Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (ST), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

**Hefyd yn bresennol -** Dilys Percival**,** Cyfarwyddwr Rhanbarth Cynorthwyol Gwasanaethau Therapi (Canolog), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield a/ac Tony Flynn

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitemau 8 a 9 ar y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol ag eitemau 6 a 7 ar y rhaglen.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Enwebodd y Cynghorydd Huw Williams y Cynghorydd Emrys Wynne, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies.

***PENDERFYNWYD** y byddai'r Cynghorydd Emrys Wynne yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am y flwyddyn i ddod.*

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2017.

Ar y pwynt yma, diolchodd y Cadeirydd i Weinyddwr y Pwyllgor am y cofnodion ardderchog.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2017 fel cofnod cywir.*

## 6 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2016-2017

Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn datgan cysylltiad personol gan ei fod yn Ynad Heddwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Cyn trafodaeth, hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau bod y Pwyllgor yn gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn penodedig y Cyngor yn unol ag adrannau 19 a 20 o'r Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn manylu gweithgaredd a pherfformiad Cyd Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych yn ystod 2016-17 ac amlinellodd flaenoriaethau'r Bartneriaeth ar gyfer 2017-18.

Rhoddodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol grynodeb i'r Pwyllgor ar gefndir sefydlu partneriaethau diogelwch cymunedol ynghyd â'u rolau a chyfrifoldebau statudol. Tynnodd sylw aelodau at y blaenoriaethau a osodwyd gan y PDC ar sail ranbarthol a'r blaenoriaethau lleol a osodwyd gan y cyd PDC ar gyfer cynnydd yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Roedd y cyfan wedi eu rhestru yn yr adroddiad. Roedd Atodiad 1 gyda'r adroddiad yn cynnwys y camau a nodwyd gyda'r bwriad i gyflawni blaenoriaethau lleol a rhanbarthol, tra'r oedd Atodiad 2 yn manylu perfformiad y Bartneriaeth o ran eu cyflawni.

Yn ystod ei chyflwyniad amlygodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol y pwyntiau canlynol:

- y gostyngiad yn ystod y flwyddyn mewn trosedd meddiangar ac mewn cyfraddau aildroseddu ymhlith oedolion ac ieuenctid, y cyfan yn hynod gadarnhaol. Roedd llywodraeth ganolog wedi darparu cyllid ar gyfer PDC i ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd hyn, felly roedd yna gydgysylltiad rhwng y dull wedi'i dargedu a'r gostyngiad yn y ffigyrau. Bu cynnydd yn nifer yr achosion o drosedd yn erbyn pobl, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), yr adroddwyd arno yn ystod 2016-17. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith bod y diffiniad o droseddu treisgar nawr yn cynnwys unigolyn yn gwthio unigolyn arall drosodd neu'n eu taro i lawr.

- yn anffodus, roedd nifer o ddigwyddiadau o drosedd treisgar wedi derbyn cyhoeddusrwydd yn Sir Ddinbych yn ystod y misoedd diweddar. Rôl y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol pan oedd yna achosion o'r fath oedd canolbwyntio ar waith ar lefel isel o fewn y cymunedau e.e. gwella goleuadau, darparu negeseuon diogelwch ar sut i gadw'n ddiogel ac ati. Roedd yr asiantaethau mwy, fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymgymryd â'r gwaith ymchwiliol;
- roedd yr holl gamau yn y cynllun gweithredu naill ai wedi eu cyflawni, neu ar y trywydd i gael eu cyflawni. Roedd yna oedi o ran derbyn data gan y Gwasanaeth Fodd bynnag, sicrhawyd y PDC bod y ddwy fenter wedi rhagori ar y targedau a osodwyd; Roedd gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion trosedd ac anhrefn o ymddygiad gwrthgymdeithasol i drosedd amgylcheddol, trosedd gwledig i derfysgaeth ryngwladol, mân drosedd lefel isel i droseddau difrifol yn erbyn pobl ac eiddo.
- mewn perthynas ag ymarfer dangosfwrdd Llywodraeth Cymru ynglŷn ag atal terfysgaeth, roedd yna un maes lle'r oedd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol angen ei gryfhau. Roedd y maes hwnnw'n ymwneud ag addysgu'r cyhoedd i wybod sut i ymateb os oeddent wedi eu dal mewn digwyddiad terfysgol tra'r oeddynt adref neu i ffwrdd;
- roedd y problemau oedd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ac o amgylch Gorsaf Reilffordd y Rhyl wedi gwella'n sylweddol ar ôl defnyddio cyllid Cefnogi Pobl. Roedd y cyllid yn darparu gwasanaethau i unigolion oedd yn adnabyddus am achosi problemau yn yr ardal. Mae'n debyg na fyddai'r broblem byth yn diflannu, ond roedd y sefyllfa wedi gwella yn y blynyddoedd diweddar;
- roedd gwaith yn cael ei wneud gyda nifer o asiantaethau gyda'r bwriad o blethu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r problemau a achoswyd gan gamddefnyddio sylweddau yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Er bod y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth, roedd angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r broblem; roedd achosion o dipio anghyfreithlon yn ardal Gorllewin y Rhyl wedi gwella yn ystod y flwyddyn, ond roedd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n agos;
- roedd y sefyllfa oedd yn ymwneud â 'chardota' yn y Rhyl hefyd yn ymddangos fel pe bai wedi gwella, gallai hyn fod o ganlyniad i'r tywydd anffafriol yn ystod yr haf gan nad oedd yna adroddiadau troseddol o 'gardota' wedi eu cofnodi'n ddiweddar. Pwysleisiwyd bod 'cardota' nid yn unig yn broblem yn Sir Ddinbych, ond yn broblem yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan fod unigolion oedd yn 'cardota' fel arfer yn symud o gwmpas;
- Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn rhagweithiol yn y misoedd diweddar o safbwynt trosedd gwledig yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau gyda defaid oedd yn fater gofid a dwyn cerbydau ac offer amaethyddol. Roedd yr heddlu yn mabwysiadu dull amlffasedol e.e. ymgyrch i berchnogion gadw eu cŵn ar dennyn wrth ymweld â chefn gwlad, ymweld â marchnadoedd da byw a mannau amaethyddol eraill i amlygu negeseuon diogelwch i ffermwyr ac i gynnig marcio offer ac ati;
- acers 2012 roedd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am gynnal 'Adolygiadau Dynladdiad' pan oedd yna farwolaethau amheus o fewn eu ffiniau. Yn dilyn dwy farwolaeth domestig diweddar yn Sir Ddinbych, roedd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y broses o sefydlu'r adolygiadau hyn. Roedd adolygiadau o'r fath yn adolygiadau aml-

asiantaeth gan unigolyn annibynnol, oedd â goblygiadau cost i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o ganlyniad. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda Swyddog Adran 151 y Cyngor o safbwynt ariannu'r adolygiadau.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio a'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol:

- er bod yna lond llaw o droseddau difrifol yn y sir, yn arbennig yn y Rhyl, roedd achosion o'r fath yn brin iawn. Roedd un digwyddiad yn cael ei ystyried fel trosedd lefel uchel a drefnwyd, a oedd yn dod yn broblem ar draws y DU, tra bod dau achos arall yn cael eu hystyried fel digwyddiadau yn y cartref;
- roeddent wedi siarad gyda Phrif Arolygydd yr Heddlu lleol a oedd wedi cadarnhau bod y llofruddiaethau diweddar wedi bod yn achosion ynysig. Fodd bynnag, roedd yr Heddlu'n poeni am y cynnydd mewn trosedd yn ymwneud â chriwiau o ardaloedd mewn dinasoedd yn y DU i ardaloedd eraill fel Gogledd Cymru;
- roedd pwerau yn Adran 60 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 wedi eu defnyddio yn y Rhyl i stopio a chwilio pobl am gyllyll;
- Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi cymryd rhan mewn ymgyrch amnest cyllyll yn ddiweddar, gyda depos y Cyngor yn cael eu defnyddio fel mannau lle gall pobl waredu unrhyw gyllyll;
- er y byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, yn cynnwys uchelgais i leihau trais domestig, mae'n bosibl y byddai aelodau'n dymuno ystyried cynnwys rhai dyheadau yn y Cynllun sy'n ymwneud â lleihau trosedd gyda chyllyll yn yr ardal;
- Roedd partneriaid Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd gyda'r bwriad i addysgu disgyblion am beryglon camddefnyddio sylweddau ar iechyd a'r cosbau troseddol oedd yn gysylltiedig â chyffuriau ac ati;
- Roedd trefi marchnad gwledig y sir, yn ogystal â'r ardaloedd arfordirol mwyaf trefol yn cael eu cefnogi gan waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd â phartneriaid fel yr Heddlu yn eu hymdrechion i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cysylltiedig â chyffuriau;
- Roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd Sir Ddinbych wedi gosod trothwy goddefgarwch isel iawn ar gyfer unrhyw eiddo trwyddedig neu yrwyr tacsi oedd yn torri rheolau trwyddedu. Roedd y dull dim goddefgarwch hwn yn talu ar ei ganfed. Roedd y Grŵp Diogelwch Corfforaethol hefyd yn monitro'n gadarn pa un a oedd holl wiriadau gofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi eu diweddaru;
- Roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn orfodol i holl yrwyr tacsi yn Sir Ddinbych;
- byddent yn gwneud ymholiadau gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub ynglŷn â'r rhaglen newid larymau mwg 'hen' neu 'ddiffygiol' (awgrymwyd hefyd bod aelodau yn mynegi eu pryderon i'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru);
- nid oedd y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd ar gyfer camau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y ddwy sir yn achosi unrhyw broblemau i'r Bartneriaeth;

- er bod yr adroddiad presennol yn cynnwys Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA), byddai Asesiadau o’r Effaith ar Les yn cael ei gynnal ar gyfer unrhyw bolisïau newydd a ddatblygir yn y dyfodol i gyflawni blaenoriaethau’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol;
- argymhellwyd y dylid codi unrhyw bryderon oedd gan aelodau gyda gwaith gorfodaeth trosedd amgylcheddol gyda’r Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; ac
- os oedd gan aelodau unrhyw bryderon oedd yn ymwneud â diogelwch cymunedol dylent gysylltu â’r Rheolwr Diogelwch Cymunedol, yr Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol neu'r staff Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio fyddai’n gallu anfon eu hymholiad at sefydliad partner y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol perthnasol i’w ddatrys.

Yn ystod y drafodaeth, dywedodd aelodau’r Pwyllgor:

- o’u profiad diweddar o Dîm Trosedd Gwledig Heddlu Gogledd Cymru doedd ganddynt ddim ond canmoliaeth iddynt gan eu bod bob amser yn sympathetig pan oeddent yn cysylltu â nhw ynglŷn ag amrywiol broblemau. Byddai’r Tîm yn defnyddio dronau yn fuan i geisio goresgyn trosedd mewn ardaloedd gwledig;
- acar ôl mynegi pryderon gan etholwyr am ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n ymwneud â chyffuriau yn yr ardal o amgylch Eglwys Sant Pedr yn Rhuthun gyda’r Heddlu, dywedwyd nad oedd nifer digonol o gwynion wedi eu hatgyfeirio i’r Heddlu gan drigolion i'w galluogi i fynd i’r afael â’r broblem. Fodd bynnag, dywedodd un cynghorydd ei fod ef yn bersonol wedi rhoi gwybod i’r Heddlu am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal, ond roedd yn dal i aros am gydnabyddiaeth i’w gwyn. Byddai’r Rheolwr Diogelwch Cymunedol yn dilyn hyn i fyny gyda Thîm Cymdogaeth yr Heddlu yn Rhuthun.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, i ganmol gweithgareddau a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol am fynd i’r afael â throsedd ac anhrefn yn Sir Ddinbych.*

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2016 – 31 MAWRTH 2017

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol Adroddiad Blynyddol y Cydlynydd Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) ar Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych yn 2016-17 (dosbarthwyd yn flaenorol).

Eglurodd fod cyflwyno’r adroddiad i’r Pwyllgor, a oedd yn rhoi gorolwg o effaith trefniadau diogelu lleol, yn cyflawni gofynion statudol y Gwasanaeth i adrodd ar berfformiad yn y maes hynod bwysig, sensitif a risg uchel hwn i aelodau. Roedd yr adroddiad yn manylu’r nifer o weithgareddau gwarchod oedolion yn Sir Ddinbych, oedd, fel ardaloedd awdurdodau lleol eraill, yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal, roedd yn manylu perfformiad y sir o ran diwallu’r dangosydd perfformiad cenedlaethol a datblygiadau yn ystod y flwyddyn i’r Tîm Diogelu, a oedd wedi

cryfhau'n sylweddol. Roedd hefyd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ynglŷn â cheisiadau Amddifadu o Ryddid.

Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod pob awdurdod lleol ar draws Cymru wedi derbyn llythyr gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ynglŷn â phryderon yr Arolygiaeth am waith diogelu oedolion. Byddai cyfarfod gyda Phrif Arolygydd AGGCC a Phrif Weithredwr CSDd i drafod materion lleol i'w gynnal yn y dyfodol agos.

Hysbyswyd yr Aelodau o'r cyfanswm o atgyfeiriadau POVA a dderbyniwyd yn ystod flwyddyn, roedd dros 75% ohonynt heb gyrraedd y Trothwy Diogelu Oedolion i gyfiawnhau ymchwiliad pellach. Roedd ansawdd atgyfeiriadau a'r trothwy a osodwyd yn mynd drwy broses sicrwydd ansawdd rheolaidd i sicrhau eu bod yn deg i bawb. Roedd ysbytai hefyd yn ymwneud â'r gwaith hwn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaeth:

- gadarnhau bod y cynnydd parhaus yn y nifer o atgyfeiriadau Diogelu Oedolion a cheisiadau Amddifadu o Ryddid yn rhoi pwysau ar y Gwasanaeth ac yn ei gwneud yn anodd iawn diwallu dyddiadau targed. Y prif nod ar ôl derbyn unrhyw atgyfeiriadau oedd sicrhau diogelwch unigolion diamddiffyn, roedd diwallu targedau'n dod yn ail;
- os ar unrhyw dro y byddai'n bryderus am allu'r Gwasanaeth i ddiogelu oedolion diamddiffyn byddai'n codi'r risg gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i geisio cymorth ariannol/adnoddau;
- dywedodd er bod ystadegau yn dangos bod dros 50% o'r gamdriniaeth honedig wedi'i gyflawni gan 'weithiwr cyflogedig' ac wedi digwydd mewn lleoliad 'cartref gofal' roedd yn bwysig cofio mai 'honiadau' oedd y rhain. Roedd hwn yn dueddiad cenedlaethol mewn perthynas ag ystadegau POVA. Roedd hefyd yn bwysig cofio bod gweithwyr mewn lleoliad cartref gofal yn darparu gofal personol dwys iawn a gallai, felly fod yn fwy tueddol o dderbyn honiadau yn eu herbyn. Roedd y nifer o honiadau a brofwyd yn dilyn ymchwiliad yn llawer llai;
- disgrifio'r broses uwchgyfeirio a ddilynwyd ar ôl honiad, gan bwysleisio bod capasiti tîm monitro contract y Cyngor wedi'i gryfhau yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r broses ymchwilio;
- cadarnhaodd bod holl atgyfeiriadau diogelu oedolion angen eu cydnabod ac ymholiadau o fewn 7 diwrnod i'w derbyn. Fodd bynnag, os oedd honiad o natur ddifrifol, a oedd yn rhoi diogelwch unigolyn mewn perygl, byddai'n derbyn sylw ar frys ar y diwrnod y cafodd ei dderbyn; cadarnhawyd bod hyfforddiant diogelu yn orfodol i'r holl staff oedd yn gwneud gwaith am dâl fel yn y sector gofal;
- cytunodd gyda'r aelodau bod codi ymwybyddiaeth yn ddiweddar am faterion diogelu oedolion mae'n debyg wedi cyfrannu at y cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau;
- Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei ystyried fel canlyniad negyddol os oedd yn golygu bod holl bobl ddiamddiffyn yn cadw'n ddiogel;
- a dywedodd fod gan y Gwasanaeth ddigon o adnoddau eleni i ddiwallu dyletswyddau POVA a'r galw Amddifadu o Ryddid. Byddai pob aelod etholedig yn derbyn cyflwyniad yn ystod yr hydref ar y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol, ei ofynion ariannol i ddiwallu dyletswyddau

statudol y Cyngor, ynghyd â phwysau hysbys a phwysau a ragwelir yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod -*

*(i) derbyn yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor i Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017; a*
*(ii) chydnabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at amddiffyn oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i'w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant.*

**Ar y pwynt hwn (10.40am) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.55am.**

## 8 RHYDDHAU AMSEROL O'R YSBYTY

Roedd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies yn datgan cysylltiad personol gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol adroddiad gan y Prif Reolwr – Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (dosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd a wnaed hyd yma i ddatblygu trefniadau cymunedol i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty yn Sir Ddinbych.

Roedd yr adroddiad y gofynnodd y Pwyllgor amdano yn rhoi gwybodaeth ar:

- Oedi wrth drosglwyddo gofal, Rhyddhau a Llif;
- Clwstwr Camu i Lawr a Thîm Camu i Lawr;
- Gweithio gyda a chefnogi Cartrefi Gofal;
- Gweithgaredd cymunedol presennol i gefnogi rhyddhau amserol trwy atal;
- Cynlluniau a pheilotau ar gyfer y dyfodol; a
- Gwell cyfathrebu a hynny'n rheolaidd

Yn ystod ei gyflwyniad, hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth yn ystod chwarter cyntaf 2017-2018 y bu ond un achos o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn Sir Ddinbych ar y 'dyddiau cyfrifiad' penodol. Roedd sefydlu'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad a'r Clwstwr a'r Tîm Camu i Lawr wedi helpu i wella perfformiad yn y maes hwn, ond yn bwysicach i helpu unigolion i ddychwelyd gartref gyda chefnogaeth briodol ddigonol. Gwasanaethau eraill oedd wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at ostyngiad yn yr Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal oedd argaeledd y Gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Uwch a Gwasanaeth Nyrsio Ardal 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Roedd yn galonogol adrodd bod yr awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio'n barhaus gyda'i gilydd ar bob lefel i dynnu holl rwystrau ac ymdrechu i gael gwasanaethau di-dor gwell. Fodd bynnag, roedd yna rai agweddau o waith iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau'n anodd i'w

gorchfygu e.e. pwysau ar wasanaethau gofal yn y cartref yn ardal wledig yn ne'r sir. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gwasanaethau Therapi BIPBC fod gwaith ataliol yn allweddol i leddfu'r pwysau ar ysbytai a gwasanaethau dwys eraill.

Yn ystod y drafodaeth, roedd aelodau'r Pwyllgor yn:

- croesawu'r dull integredig gan y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol tuag at gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty a sicrhau bod gwasanaethau perthnasol eraill i'w cefnogi ar ôl cael eu rhyddhau, gan gynnwys dioddefwyr dementia; a
- chroesawyd dyhead yr Asesiad o'r Effaith ar Les (WIA) i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oedd yn diwallu Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, roedd y swyddogion Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn:

- cadarnhau eu bod wedi cael anawsterau yn recriwtio digon o siaradwyr Cymraeg mewn rhai disgyblaethau iechyd/gofal cymdeithasol i ddiwallu'r dyhead yn yr Asesiad o'r Effaith ar Les, roedd gofal cartref yn un o'r meysydd hyn;
- dweud eu bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau lleol gyda'r bwriad o hybu gyrfaoedd o fewn gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- roedd datblygu'r gweithlu'n gwneud cynnydd ar sail ranbarthol o dan arweiniad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd;
- egluro mewn manylder y broses Camu i Lawr ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty a chefnogi annibyniaeth unigolyn gartref; ac
- amlinellodd effeithiolrwydd y Tîm Adnoddau Cymunedol yn y Rhyl, a'u cynlluniau i gyflwyno'r dull gwasanaethau integredig hwn i rannau eraill o'r sir maes o law, gan gynnwys Dinbych, Prestatyn a Rhuthun.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod:*

*(i) Llongyfarch y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith a wnaed hyd yma i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty; a*
*(ii) chefnogi cynlluniau a pheilotau yn y dyfodol, o fewn ysbytai ac yn y gymuned, a anelwyd at wella canlyniadau i'r unigolion.*

## 9 CYLLIDEBAU CYFUN

Roedd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies yn datgan cysylltiad personol gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol). Dywedodd bod yr adroddiad, oedd yn amlinellu profiad y Cyngor mewn perthynas â sefydlu a gweithredu trefniadau dwy 'gyllideb gyfun' gyda'r Gwasanaeth Iechyd yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn unol â'u cais. Byddai hyn cyn y gofyniad i sefydlu a gweithredu 'cyllideb gyfun' rhwng y ddau ar gyfer

comisiynu gwasanaethau gofal preswyl. Roedd ‘cyllideb gyfun’ y gwasanaethau gofal preswyl’ angen cael ei sefydlu erbyn Ebrill 2018 yn unol â darpariaethau’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd y trefniadau ‘cyllideb gyfun’ a amlinellwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â’r Gwasanaeth Offer Cymunedol (CESI) a’r Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol). Roedd trefniadau ar gyfer y ddau wasanaeth wedi eu manylu yn yr adroddiad ynghyd â'r cefndir cyfreithiol perthnasol ar gyfer eu sefydlu. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar faterion ariannol, materion llywodraethu, barn budd-ddeiliaid ar effeithiolrwydd y trefniadau ‘cyllideb gyfun’ a gwersi a ddysgwyd gan y ddau wrth gynllunio ar gyfer trefniadau 'cyllideb gyfun' mwy yn y dyfodol.

Ar ôl cyflwyno’r adroddiad, dywedodd Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gwasanaethau Therapi BIPBC o safbwynt trefniadau CESI, roedd cleifion nawr yn derbyn gwasanaeth di-dor, oedd yn darparu’r offer iechyd a gofal cymdeithasol yr oeddent eu hangen i gefnogi eu hannibyniaeth yn brydlon.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, roedd y swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

- dweud y byddai amrywiaeth ehangach o offer nawr ar gael gan CESI. Pan gafodd y gwasanaeth ei sefydlu, nid oedd eitemau fel ‘matresi lliniaru gwasgedd’ a gyflenwyd gan y Gwasanaeth Iechyd bryd hynny ar gael. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd roedd y Gwasanaeth wedi esblygu ac roedd arian y Gwasanaeth Iechyd mewn amrywiol gyllidebau adrannol wedi eu rhyddhau i’r ‘gyllideb gyfun’. Roedd hyn wedi cynorthwyo CESI i ehangu a chyflenwi pob math o offer iechyd a gofal cymdeithasol.
- rhoi trosolwg o brisiau rhai mathau o offer, a oedd yn amrywio’n fawr;
- cadarnhawyd bod offer wedi’i ddefnyddio a ddychwelwyd i CESI yn cael ei asesu, ei wasanaethu a’i lanhau gan arbenigwyr cyn ei roi i unigolion eraill. Roedd amnest hefyd wedi’i gynnal i alluogi pobl i ddychwelyd offer nad oeddent ei angen mwyach i’r gwasanaeth;
- byddai anghenion pob unigolyn yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol iechyd/gofal cymdeithasol cyn penderfynu pa offer/gymorth fyddai’n cynorthwyo ac yn cefnogi eu gofal a’u hannibyniaeth; a
- cadarnhawyd nad oedd arian a roddwyd yn y ‘cyllidebau cyfun’ presennol gan y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arian ychwanegol a roddwyd iddynt ar gyfer y diben hwn. Roedd yn arian a roddwyd i’r ddau wasanaeth fel rhan o’u cyllideb gyffredinol a glustnodwyd gan wasanaethau ar gyfer offer gwaith HSCSW. Drwy gyfuno’r arian hwn roedd yn helpu’r Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynyddu eu pŵer ‘prynu/comisiynu’ ar gyfer offer a gwasanaethau. Yn ogystal, gall arian grant sy’n weddill, os yn briodol gael ei gynnwys mewn cyllideb gyfun yn dibynnu ar ddiben gwreiddiol y grant.

Roedd y Pwyllgor yn:

***PENDERFYNU** derbyn y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â sefydlu a gweithredu trefniadau ‘cyllideb gyfun’ presennol rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Gwasanaeth Iechyd, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o’r*

*profiadau hynny wrth i'r Cyngor baratoi i ymuno â threfniadau 'cyllideb gyfun' gorfodol yn y dyfodol yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*

## 10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth:

- Cytunwyd i ychwanegu Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych 2017-21 a'r Cynllun Atal Digartrefedd/Cefnogi Pobl 2018/19 i'r rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod ar 2 Tachwedd
- Cytunwyd i ohirio eitem Un Pwynt Mynediad ar gyfer y cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017
- Cytunwyd i wahodd Aelodau Arweiniol perthnasol ar y Cabinet i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol ar gyfer eitemau sy'n berthnasol i'w portffolios.
- Cytunwyd i gynnal cyfarfod briffio am 9.30am gyda'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i ddechrau am 10.00am. Byddai hyn yn cael ei dreialu o'r cyfarfod ym mis Tachwedd 2017.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y newidiadau yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y caiff ei manylu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.**